Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.10 Pensiynau

Mae pensiynau yn faes hynod o gymhleth a phwysig. Gyda'r pensiwn y wladwriaeth yn lleihau o ran gwerth, a'r llywodraeth yn ymrwymo fwyfwy i ddarparu pensiynau preifat, bydd rhaid i gyflogwyr y sector wirfoddol roi ystyriaeth i ddarpariaeth pensiynau ar gyfer eu gweithwyr.

Ar hyn o bryd, does dim gobygliad ar gyflogwyr i wneud cyfraniadau pensiwn i'w gweithwyr, ond efallai bydd rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth am bensiwn budd-ddeiliad. Fodd bynnag, mae llawer o gyflogwyr yn edrych ar wneud cyfraniadau pensiwn yn rhan bwysig o arfer dda, a ffordd o ddenu a chadw staff da. Mae rhai cyflogwyr sector gwirfoddol yn cytuno ar gynlluniau pensiwn yr awdurdod lleol. Os nad yw'r opsiwn yma ar gael, gall cyflogwr ddechrau ei gynllun ei hun.

Ers mis Hydref 2012, mae pob cyflogwr, gan gynnwys elusennau, yn rhwymedig yn gyfreithiol i gynnig pensiwn gweithle. Er gwaethaf pwysigrwydd y datblygiad yma, mae arolwg diweddar wedi dangos fod nifer o ymddiriedolwyr elusennau yn anymwybodol o ystyr hyn i gyd.

Mae'r dyletswyddau newydd yn rhan o raglen diwygiadau pensiwn sy'n ceisio gwneud cynilo ar gyfer pensiwn yn beth arferol i'w wneud, Golyga hyn bydd cyflogwyr yn rhwymedig i gofrestru'n awtomatig unrhyw weithwyr cymwys ar gyfer cynllun pensiwn gweithle cymwys a gwneud cyfraniad.
Bydd angen cyfraniad cyflogwr 3% o leiaf ar fand cyflog, er fe ellir cyfrannu mwy. Lleiafswm y cyfraniad gweithiwr cymwys fydd 8%, sef cyfraniadau'r cyflogwr, cyfraniadau'r gweithiwr a rhyddhad treth. Er mwyn helpu cyflogwyr, bydd lleiafswm y cyfraniad yn cael ei raddoli o 1% i 3%.

Fel rhan o'r diwygiadau trosfwaol yma, bydd cynllun newydd, sef cyfrifon personol, yn cael ei greu i ddarparu cynllun pensiwn gweithle cyfradd isel a ellir ei ddefnyddio gan unrhyw gyflogwr. Gweithredir y cynllun gan Gorfforaeth Ymddiriedolwyr di-elw, ac fe'i hanelir at enillwyr isel i ganolig, gyda llawer heb ddefnyddio pensiwn gweithle o'r blaen. Gall cyflogwyr ddewis cyfrifon personol neu unrhyw gynllun cymwys arall.

Rhoddwyd gofal y cynllun yma i'r Awdurdod Trosglwyddo Cyfrifon Personol (PADA), ond daeth hyn i ben. Corfforaeth NEST yw'r corff ymddiriedolwyr cyfredol sydd â chyfrifoldeb arolygu NEST (National Employment Savings Trust).

Mae'r opsiynau canlynol ar gael, ond bydd angen cyngor arbenigol i benderfynu ar yr opsiwn gorau.

Cynlluniau galwedigaethol cyflog olaf

Yn y cynlluniau yma mae'r cyflogwyr yn gwneud cyfraniadau canran penodedig o'r cyflog. Yn gyfnewid am hyn, maen nhw'n derbyn pensiwn sy'n cyfateb i nifer y blynyddoedd a gyfrannwyd i'w 'cyflog olaf'. Nid yw cyfraniadau'r cyflogwyr yn 'benodedig' ond rhaid iddynt amrywio i sicrhau fod y gweithwyr yn derbyn y pensiwn a gytunwyd arno. Mae'r mathau yma o gynllun pensiwn yn arferol yn y sector cyhoeddus ac ystyrir hwy i fod y cynllun fwyaf deniadol ym marn y gweithwyr. Gall hefyd fod yn opsiwn deniadol i'r cyflogwyr, os allant ymuno â` chynllun o'r fath, megis cynllun yr awdurdod lleol neu gynllun yr Ymddiriedolaeth Pensiynau, ble gwneir y gwaith gweinyddol cymhleth eisoes.

Cynlluniau galwedigaethol gwariant arian

Fel yn y cynllun pensiwn olaf, mae gweithwyr yn cyfrannu canran penodedig o'u cyflog yn rheolaidd. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniad.

Pensiynau personol

Gall gweithwyr na sy'n aelodau o gynllun pensiwn galwedigaethol, ymaelodi â phensiwn personol. Rheolir y rhain gan gwmnïau yswiriant, ac maen nhw'n galluogi gweithwyr (a'u cyflogwyr os ydynt angen) i wneud cyfraniadau rheolaidd di-dreth.

Pensiynau personol grŵp

Mae hwn yn debyg i bensiwn personol, ond ei fod yn cynnwys nifer o weithwyr. Y cynllun yma efallai yw'r un fwyaf rhad yn nhermau gweinyddu o safbwynt cyflogwr.

Pensiynau budd-ddeiliad

Mae'r rhain yn bensiynau isel o ran cost, wedi'u hanelu at y rhai sy'n ennill rhwng tua £10,000 a £20,000 y flwyddyn, sydd heb gynllun pensiwn personol neu alwedigaethol. Rhaid i fwyafrif y cyflogwyr sy'n cyflogi pum person neu fwy gynnig y cynllun yma i'w gweithwyr. Gall methiant i wneud hyn arwain at ddirwyon sylweddol.

Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS)

Mae pob gweithiwr a chyflogwr yn cyfrannu (drwy gyfraniadau uwch Yswiriant Cenedlaethol) at SERPS, heblaw bod y gweithiwr yn aelod o gynllun pensiwn galwedigaethol drwy gontract, neu wedi dewis tynnu allan o SERPS drwy eu cynllun pensiwn personol. Bydd pensiynau budd-ddeiliad hefyd yn darparu tynnu allan o SERPS.

Gwybodaeth bellach

Pensiynau a chynllunio ar gyfer ymddeol
www.direct.gov.uk/cy/Pensionsandretirementplanning

The Pensions Trust
www.thepensionstrust.org.uk

The Pension Sorter
www.pensionsorter.co.uk

The Pensions Advisory Service
www.pensionsadvisoryservice.org.uk

Occupational Pensions Regulatory Authority
www.thepensionsregulator.gov.uk

National Employment Savings Trust
www.nestpensions.org.uk

Pension Plan 4 Charities
www.pensionplans4charities.co.uk.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR
Elusen Gofrestredig: *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:06/01/2016

WCVA CGGC
Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.cymru